**Enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith y CCYSAGauC (Mehefin 23, 2016)**

**Nominations for the Executive Committee (23 June 2016)**

Mae PEDWAR o enwebiadau ar gyfer TAIR swydd ar y Pwyllgor Gwaith.

There are FOUR nominations for THREE positions on the Executive Committee.

**1. Mary Parry – CYSAG Sir Gaerfyrddin**

- Mae gen i brofiad helaeth o weithio ym maes Addysg Grefyddol ac rwy'n angerddol am bwysigrwydd y pwnc i ddatblygu pobl ifanc gyflawn yng Nghymru heddiw. Rwy'n barod bob amser i ymladd dros le teilwng i Addysg Grefyddol yn y cwricwlwm.

- Rwyf yn Ymgynghorydd Addysg Grefyddol gyda Sir Gaerfyrddin (a Dyfed cyn hynny) ers 22 o flynyddoedd. Gyda'r ad-drefnu diweddar, teitl fy swydd bellach yw 'Ymgynghorydd Her Cysylltiol ERW' sef Consortiwm Rhanbarthol De, Gorllewin a Chanolbarth Cymru.

- Rwyf yn swyddog proffesiynol i GYSAG Sir Gaerfyrddin. Yn rhinwedd y swydd hon, rwyf wedi bod ynghlwm wrth lunio meysydd llafur cytûn y sir a deunyddiau cefnogi. Yn ychwanegol at hyn, rwyf newydd dderbyn cynnig i weithio gyda CYSAG Sir Benfro fel ei swyddog proffesiynol.

- Rwyf yn aelod gweithgar o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru ers 20 o flynyddoedd ac rwy'n cyfranogi'n rheolaidd yng nghyfarfodydd tymhorol y Gymdeithas. Er enghraifft, y llynedd, rhoddais gyflwyniad yng nghyfarfod tymor y Gwanwyn ar uned o waith Addysg Grefyddol a luniais ar gyfer ysgolion uwchradd, sef 'Pêl-droedwyr Mwslimaidd yn yr Uwch Gynghrair'.

- Rwy'n cynghori a chefnogi athrawon ar weithredu Maes Llafur Cytûn yr ALl ac ar addysgu Addysg Grefyddol yn effeithiol. Rwyf wedi darparu llawer o gyrsiau ac adnoddau dwyieithog ar gyfer ysgolion - yn sir Gâr ac mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

- Rwyf wedi gweithio gyda chyrff allanol ar faterion sy'n ymwneud ag AGr, megis CBAC, Estyn a Llywodraeth Cymru. Er enghraifft rwy'n arolygu ysgolion o dan gytundeb Estyn a bûm yn rhan o dîm Estyn a ysgrifennodd yr adroddiad ar Addysg Grefyddol mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru yn ddiweddar.

- Cyn fy swydd bresennol bûm yn bennaeth yr adran Addysg Grefyddol ac yn bennaeth yr ysgol iau yn Ysgol Gyfun Emlyn, Sir Gâr.

- Gyda'r profiad hwn, teimlaf y gallaf barhau i wneud cyfraniad gwerthfawr i weithgor CCYSAGau Cymru a byddai'n fraint i barhau i wasanaethu arno.

**1. Mary Parry – Carmarthenshire SACRE**

- I have been working in the field of Religious Education for many years and I am very passionate about the importance of the subject in developing well-rounded young people in Wales today. I am always prepared to fight for the rightful place of RE in the curriculum.

- I have been a Religious Education Advisor in Carmarthenshire (and its predecessor, Dyfed) for 22 years. With recent reorganisation my title is now an ERW Associate Challenge Adviser - the South, West and Mid Wales Regional Consortium.

- I am the professional officer to the Carmarthenshire SACRE. As such, I have been involved in drawing up the LA's RE Agreed syllabuses and support materials. In addition, I have recently accepted the invitation to work with the Pembrokeshire SACRE as its professional officer.

- I have been an active member of the WASACRE executive committee for 20 years and participate regularly at WASACRE meetings. For example, last year I gave a presentation at the spring term meeting on an RE unit of work which I had created for secondary schools, 'Muslim footballers in the Premier League'.

- I advise and support teachers in implementing the LA Agreed Syllabus and in teaching RE effectively. I have provided many bilingual courses and resources for schools – both in Carmarthenshire and in other LAs in Wales.

- I have worked with external bodies such as WJEC, Estyn and Welsh Government on matters relating to RE. For example, I inspect schools under Estyn contract and was one of the three inspectors who undertook the Estyn thematic review of RE in secondary schools in Wales.

- Before my present position, I was the head of RE and the head of lower school in Newcastle Emlyn Comprehensive school, Carmarthenshire.

- With this experience, I feel that I can continue to make a valuable contribution to the WASACRE executive and would find it a privilege to continue to serve on it.

**2. Huw Stephens, M.A., B.Ed.- CYSAG Casnewydd**

Bûm yn athro Addysg Grefyddol am 39 mlynedd tan i mi ymddeol yn 2012. Roedd fy ngyrfa yn y sector Uwchradd – Fair view, Y Coed Duon, Ysgol Queen's, Casnewydd, ac Ysgol Basaleg, Casnewydd. Dysgais y Cwrs Byr a Chwrs Llawn T.G.A.U., a Lefel A Addysg Grefyddol.

Roeddwn yn Bennaeth Blwyddyn 7, ac felly'n cymryd rhan yn ochr Fugeiliol bywyd yr ysgol ac yn gwneud llawer gyda disgyblion oedd yn trosglwyddo o'r Cynradd i'r ysgol Uwchradd. Bûm hefyd yn gwasanaethu fel Athro Lywodraethwr yn Ysgolion Queen's a Basaleg.

Cyn ymddeol, cefais fy enwebu fel cynrychiolydd i'r Bedyddwyr ar GYSAG Casnewydd ac rwyf wedi bod yn aelod rheolaidd a gweithgar ar y pwyllgor hwnnw, hefyd yn mynychu cyfarfodydd CCYSAGauC, fel cynrychiolydd Casnewydd.

Rwyf wedi chwarae rhan amlwg ym mywyd yr Eglwys leol, ac wedi ymddeol, cefais fy Ordeinio a'm Sefydlu fel Cyd-Weinidog yn fy Eglwys Fedyddwyr leol yn Rogerstone, Casnewydd.

Rwyf wedi bod yn briod â Rachel fy ngwraig, ers 30 mlynedd, ac mae gennym dair merch wedi tyfu i fyny – y tair ohonynt wedi priodi o fewn 10 mis i'w gilydd, yn syth ar ôl i mi ymddeol!

Mae gen i ddiddordeb mawr yn y ffordd y mae Astudiaethau Crefyddol yn datblygu ac rwyf yn ymwybodol fod CCYSAGauC mewn lle unigryw i gael llais cryf a gwybodus fel rhanddeiliad yn y trafodaethau parhaus am ffurf y cwricwlwm newydd. Rwyf yn barod i ddod â'm profiad a'm brwdfrydedd dros Astudiaethau Crefyddol i'r rôl y cefais fy enwebu ar ei chyfer.

**2. Huw Stephens, M.A., B.Ed.- Newport SACRE**

I was a Religious Studies teacher for 39 years until my retirement in 2012. My career was in the Secondary sector – Fair view, Blackwood, Queen's School, Newport, and Bassaleg School, Newport. I taught G.C.S.E. Short and Full Course, and Advanced Level religious Studies.

I was a Head of Year 7, involved in the Pastoral side of school life and heavily associated with the transition of pupils from Junior to Secondary school. I also served as a Teacher Governor at Queen's and Bassaleg Schools.

Before my retirement, I was nominated as a Baptist representative on Newport SACRE and have been a regular member and contributor on that committee, also attending WASACRE meetings, as a Newport representative.

I have been involved in local Church life and, in retirement, have been Ordained and Inducted as a Co-Pastor in my local Baptist Church in Rogerstone, Newport.

I have been married to Rachel, my wife, for 30 years, with three grown up daughters - all married within 10 months of each other, just after my retirement!

I am very interested in the way Religious Studies is developing and am aware that WASACRE is uniquely placed to have a strong and informed voice as a stakeholder in ongoing discussions about the shape of the new curriculum. I am willing to bring my experience and passion for Religious Studies to the role for which I have been nominated.

**3. Moses Tutesigensi- CYSAG Powys**

Dywedodd rhywun rywbryd fod gan y rhan fwyaf o bobl ddau ddiwylliant - diwylliant eu rhieni a diwylliant eu cenhedlaeth. Gall rhai feddu ar drydydd os yw eu hynafiaid yn dod o rywle gwahanol i'r lle maent yn byw ynddo! O'm rhan i, mae gen i o leiaf 4 diwylliant sy'n pwyso ar fy hunaniaeth - roeddwn yn blentyn yn Uganda, yn laslanc yn Lloegr, a bellach yn oedolyn ifanc yng Nghymru. Yn fwy pwysig na'r tri yna, yw'r pedwerydd - wedi cael fy magu ar aelwyd Gristnogol, deuthum yn Gristion ailanedig yn 15 oed.

Tua 15 oed oeddwn i pan ddeuthum i gysylltiad â CYSAG am y tro cyntaf. Yn fy ysgol, roeddwn yn cymryd rhan ar banel athrawon-disgyblion o'r enw 'Section 23' a nod y panel hwn oedd datblygu ethos Cristnogol yr ysgol (ysgol Gatholig oedd hi). Ac felly, dywedodd fy mhennaeth blwyddyn wrtha'i fod CYSAG Portsmouth yn ystyried sefydlu fforwm ieuenctid i bobl ifanc â ffydd. I dorri stori hir yn fyr, roeddwn yn un o aelodau sylfaenol Fforwm Rhyng-ffydd Ieuenctid Portsmouth, un o'r fforymau rhyng-ffydd cyntaf yn ne Lloegr. Parhaodd fy nghysylltiad â CYSAG Portsmouth tan 2014 wrth i mi gefnogi'r mudiad, yn ogystal â bod yn siaradwr mewn diwrnod cyfoethogi AG yn y ddinas.

Dyma fy wythfed flynedd o fyw yng Nghymru, wedi syrthio mewn cariad â’r lle a’r bobl wrth astudio biocemeg ym Mhrifysgol Caerdydd. Wedi graddio, treuliais ychydig o amser yn gwirfoddoli gyda Chymorth Cristnogol ac ar yn un pryd yn helpu gwaith dwy eglwys roeddwn wedi’u mynychu fel myfyriwr - St Philip’s yn Nhremorfa, Caerdydd a phlwyf Bargoed, Deri a Brithdir yng Nghwm Rhymni. Rwyf bellach yn gweithio gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru yng Nghanolbarth Cymru fel Galluogwr Cenhadol ers canol 2013. Drwy fy ngwaith bob dydd rwyf yn dod i gysylltiad â gwahanol ysgolion, gwahanol gymunedau, ac eglwysi sydd â heriau gwahanol. Credaf yn gryf fod gan bobl o ffydd rôl allweddol yn yr amgylchiadau hynny i gyd.

Un o adnodau’r Beibl y ceisiaf lynu wrthi yw’r hyn a ddywed Duw drwy Eseia wrth ei bobl - ‘dysgwch wneud daioni, ceisiwch farn, achubwch gam y gorthrymedig, amddiffynnwch yr amddifad, a chymerwch blaid y weddw’. Mae’r rhain yn themâu y gellir eu harchwilio’n synhwyrol mewn cymdeithas luosryw grefyddol fel hon, ac i’r perwyl hwnnw y gobeithiaf y gallaf fod o ddefnydd ar Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC.

**3. Moses Tutesigensi- Powys SACRE**

It has been said that most people occupy two cultures - that of their parents and the one of their generation. Some may have a third if their ancestry is of a different nation to their residence! As for me, I have at least 4 cultures that burden my identity - I was a child in Uganda, a teenager in England, and now a young adult in Wales. More fundamental to me than those three, is the fourth - having been raised in a Christian household, I became a born again Christian at age 15.

It was around the age of 15 that I first came into contact with a SACRE. At my school, I had gotten involved with a teacher-pupil panel called 'Section 23' which was charged with developing the christian ethos of the school (I went to a Roman Catholic school). And so, my head of year informed me that Portsmouth SACRE was looking to set up a youth forum for young people of faith. To cut a long story short, I subsequently became a founding member of the Portsmouth Youth Interfaith Forum, which was one of the first youth interfaith forum in southern England. My involvement with Portsmouth SACRE continued until 2014 by virtue of my supporting the organising, as well as being a speaker at, a city wide RE enrichment day.

I am now in my eighth year of living in Wales, after becoming besotted with the place and the people whilst studying biochemistry at Cardiff University. After graduating, I spent some time volunteering with Christian Aid whilst also supporting the work of two churches that I had become involved in as a student - St Philip's in Tremorfa, Cardiff and the parish of Bargoed, Deri and Brithdir in the Rhymney valley. I have now been working with the Presbyterian Church of Wales in Mid Wales as a mission enabler since mid 2013. My everyday work sees me coming into contact with different schools, different communities, and churches with different challenges. My core belief is that in all those circumstances people of faith have a critical role to play.

A Bible verse that I aspire to live by is taken from what God says through Isaiah to his people - 'learn to do good, seek justice, rebuke the oppressor, defend the fatherless, plead for the widow'. These are themes that can be explored sensibly in a religiously plural society like ours, and it is to this end I hope I can usefully serve on the WASACRE Executive.

**4. Mathew Maidment – CYSAG Rhondda Cynon Taf**

Rwyf wedi bod yn gweithio yn Ysgol Gyfun Bryn Celynnog ers dros ugain mlynedd. Wedi graddio o UWIC, dechreuais fy ngyrfa fel athro Addysg Gorfforol ac Addysg Grefyddol yn 1995. Yn dilyn anaf pêl-droed difrifol, deuthum yn aelod llawn-amser o'r adran Addysg Grefyddol a bellach rwyf yn bennaeth AG. Rwyf wedi dal nifer o swyddi yn ystod fy nghyfnod yn yr ysgol yn cynnwys cydlynu AbaCh, Ffeil Cynnydd, Anogwyr Dysgu a Sgiliau Allweddol, ac, wedi bod yn Bennaeth Blwyddyn ac yn sgil bod yn Bennaeth yr Ysgol Isaf, rwyf yn aelod o'r Uwch Dîm Rheoli Estynedig ers y pedair blynedd ddiwethaf.

Rwyf yn frwd dros Addysg Grefyddol ac yn ddiweddar deuthum yn aelod o GYSAG Rhondda Cynon Taf. Bum hefyd yng nghyfarfod CCYSAGauC yng Nglyn Ebwy ar 25 Tachwedd. Wrth fynychu cyfarfodydd CYSAG RCT a CCYSAGauC, sylweddolais bwysigrwydd y cyrff hyn. Gyda'r newidiadau sydd ar droed mewn addysg yng Nghymru, credaf fod rôl CCYSAGauC yn hanfodol ar yr adeg yma. Wrth i amser y cwricwlwm gael ei wasgu, mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn glynu wrth y rhwymedigaeth statudol sydd ar ysgolion i gyflwyno AG addas ac ystyrlon, ar draws pob cyfnod allweddol.

Yn CA4 rwyf yn poeni'n arbennig am y syniad o AG fel rhywbeth wrth fynd heibio sy'n rhan o gymwysterau eraill megis y Fagloriaeth Gymreig. Credaf fod angen i ni sicrhau fod ysgolion yn cynnig rhaglenni AG sy'n ymdrin yn effeithiol â maes llafur y cytunwyd arno, gydag amser rheolaidd a phriodol iddo ar y cwricwlwm ar draws blynyddoedd 10 ac 11.

Teimlaf fod yr opsiynau TGAU presennol gan CBAC wedi gweithio'n arbennig o dda, gydag opsiwn B, yn arbennig, yn ddiddorol i ddisgyblion CA4, waeth beth fo'u cefndir crefyddol neu ddigrefydd. Rwyf yn edrych ymlaen gyda diddordeb mawr felly at y manylebau TGAU newydd. Penderfynais gysylltu â Lynda Maddock (CBAC) i fynegi fy ngobeithion ar gyfer y cymhwyster newydd a'm cefnogaeth i'r gwaith y mae hi'n ei wneud. Ymhellach, cefais fy ngwahodd yn ddiweddar, gan Gill Vaisey, i fynychu cyfarfod posibl gyda Gareth Pierce (CBAC). Gofynnwyd am y cyfarfod hwn gan gynrychiolwyr o NAPfRE a CCYSAGauC i drafod rhai o'r materion sydd ynghlwm â'r TGAU newydd.

Gobeithiaf y byddai fy mhrofiad fel athro a Phennaeth Adran AG yn y sector uwchradd, yn ystod yr amser hwn o newid yn addysg Cymru, yn werthfawr i Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC a byddwn yn ddiolchgar i gael cyfle i wasanaethu'r pwyllgor pe cawn fy mhenodi.

**4. Mathew Maidment – Rhondda Cynon Taf SACRE**

I have worked at Bryn Celynnog Comprehensive School for over twenty years. Having graduated from UWIC, I started my career as a teacher of Physical Education and Religious Education in 1995.

Following a serious football injury I became a full-time member of the Religious Education department and am now Head of RE. I have held a number of roles during my time at the school including the coordination of PSE, Progress File, Learning Coaching and Key Skills and, having been both a Head of Year and Head of Lower School, I have been a member of the Extended Senior Management Team for the past four years.

I am passionate about Religious Education and recently became a member of the RCT SACRE. I also attended the WASACRE meeting in Ebbw Vale on the 25th November. Attending the RCT SACRE and the WASACRE meetings made me realise the importance of these organisations. With the changes taking place, within education in Wales, I believe the role of WASACRE is vital at this time. As curriculum time is squeezed we must ensure that the statutory obligation for schools to deliver appropriate and meaningful RE, across all key stages, is being adhered to.

At KS4 I am particularly concerned at the prospect of 'token gesture' RE being delivered as part of other qualifications such as the Welsh Baccalaureate. I believe we need to ensure that schools provide RE programmes that effectively cover an agreed syllabus, with regular and appropriate curriculum time across years 10 and 11.

I feel that the current WJEC GCSE options have worked extremely well, with option B, especially, proving engaging for KS4 pupils, regardless of their religious or non-religious backgrounds. It is, therefore, with great interest that I await the new GCSE specifications. I have been proactive in contacting Lynda Maddock (WJEC) to express my hopes for the new qualification and my support for the work she is doing. Furthermore, I was recently invited, by Gill Vaisey, to attend a potential meeting with Gareth Pierce (WJEC). This meeting has been requested by representatives from NAPfRE and WASACRE to discuss some of the issues surrounding the new GCSE.

I hope my experience as a teacher of RE and Head of Department in the secondary school setting, during this time of change within Welsh education, would be of value to the WASACRE Executive Committee and I would be grateful for the opportunity to serve the committee if appointed as a member.